

TUDALEN 33

Cofnodion y **Pwyllgor Cynllunio o bell**, a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom **nos Lun 6 Medi 2021** am 6.30 pm.

YN BRESENNOL:- Eu Teilyngdod y Maer, Cynghorydd Owen Hurcum

Cynghorwyr: Les Day, Dylan Fernley, Derek Hainge, Medwyn Hughes, John Martin, Huw Wyn Jones, Elin Walker Jones, John Wynn Jones, Kieran Jones, Enid Parry, Nigel Pickavance, Gwynant Roberts, Luke Tugwell.

Swyddogion:- Iwan Williams, Cyfarwyddwr Dinesig, Delyth Davies (Cyfieithydd) Sioned Jones (Cofnodion)

86/21 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gareth Roberts, Mair Rowlands, George Turner, John Wyn Williams.

87/21 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim

88/21 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim.

89/21 CEISIADAU CYNLLUNIO

Ceisiadau Strategol

Codi 25 uned fforddiadwy, mynedfa, cyfleusterau parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig (Railway Institute Ffordd Euston, Bangor, Gwynedd, LL57 2YP) (Cyf C21/0803/11/LL. Ward: Hendre)

Sylwadau

Yn gyffredinol roedd croeso i'r cais gan fod mawr angen unedau fforddiadwy fel y rhain yn y ddinas.

Roedd y prif bryderon i gyd yn gysylltiedig â'r parcio:

Mae'r datblygwr wedi darparu ar gyfer 15 lle parcio i 25 o unedau. Yr awgrym yw y dylai unrhyw geir eraill barcio mewn llinell i lawr o dop Ffordd Euston. Roedd yr aelodau'n teimlo fod hyn yn dangos diffyg dychymyg, ac y byddai parcio ar yr ochr yn golygu mwy o le. Gallent hyd yn oed ddefnyddio rhywfaint o'r llefydd gwag ar dir y rheilffordd.

Roedd teimlad y dylid defnyddio mwy o ddychymyg wrth ystyried parcio yn yr ardal o amgylch y fflatiau. Gellid defnyddio'r datblygiad i wella parcio yn y ddinas drwy gynnig gweledigaeth am barcio yn Ffordd Euston a'r cyffiniau, er budd y busnesau bach yn West End a thrigolion Tai Stesion. Gellid cael budd cynllunio yn sgil y datblygiad hwn, drwy gael gweledigaeth newydd ar gyfer parcio.

Dywedwyd hefyd ei bod hi'n anghyfreithlon bacio allan i briffordd, ond, roedd digon o achosion o hyn yn digwydd yn y ddinas yn barod.

Cynigiwyd y dylid cefnogi'r cais, ond ar yr un pryd gofyn i'r datblygwr roi ystyriaeth ddwys i ail-ddylunio'r llefydd parcio, er budd y datblygiad hwn ac er budd y trigolion lleol.

Roedd pawb o blaid, ond ataliodd y Cyng Hainge ei bleidlais.

90/21 MATERION PRIFFYRDD

Dim.

91/21 MATERION TRWYDDEDU

Dim.

TUDALEN 34

Daeth y cyfarfod i ben am 6.49 pm

Cyfarwyddwr y Ddinas – Iwan Williams – City Director